

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 18

Key language

Meddwn i etc
Hoffwn i etc
Liciwn i etc

New words

gwahaniaeth	difference
malio	to care
cadw'n heini	to keep fit
ymlacio	to relax
lladd fy hun	to kill myself
digwydd	to happen
cyhuddo	to accuse
cyhuddiad	accusation
rheithgor	jury
pledio	to plead
gormod	too much
holi	to ask
adnabod	to know
gynnau	earlier on
colli pwysau	to lose weight
cadw draw	to keep away
dioddef	to suffer
cefnogol	supportive
cyflogi	to employ
gweld eisiau rhywun	to miss someone
gollwng	to let go
hawdd	easy
poenus	painful
teimladau	feelings
trefnu	to organise
deuddydd	two days
tyfu	to grow
gwahanu	to separate
gwrthod	to refuse
rheswm	reason
prin	scarce
anobeithiol	hopeless
haeddu	to deserve

Main Grammatical Points

Note the use of 'meddai' and 'meddwn' when someone is quoting what someone else has said

For example

Agnes says 'A doedd Brian yn gwybod dim - meddai fe'
Brian knew nothing (so) he said

The full forms are:

Meddwn i	I said
Meddet ti	you said
Meddai hi	she said
Meddai fe/fo	he said
Medden ni	we said

Meddech chi	you said
Medden nhw	they said

'I would like' can be expressed in different ways in Welsh

You might hear 'Baswn ni'n hoffi' or 'Byddwn i'n hoffi'.
The following short forms are also commonly used

Hoffwn i
Hoffet ti
Hoffai e/o
Hoffai hi
Hoffen ni
Hoffech chi
Hoffen nhw

Negative forms are

Hoffwn i ddim

And the question forms

Hoffet ti? with the answers Hoffwn - Yes, and Na hoffwn - No

In colloquial Welsh you might also hear the forms

Liciwn i
Liciet ti
Liciai e/o
Liciai hi
Licien ni
Liciech chi
Licien nhw

The negative and question forms follow the usual pattern

Ysbyty Brynaber: Episode 52

Brian is on the phone to his girlfriend Linda but she doesn't want to have anything to do with him

Agnes meets up with Jenny at the local swimming pool. They discuss Brian's court case.

Geirfa

gwahaniaeth	difference
malio	to care
cadw'n heini	to keep fit
ymlacio	to relax
lladd fy hun	to kill myself
digwydd	to happen
cyhuddo	to accuse
cyhuddiad	accusation
rheithgor	jury
pledio	to plead

Golygfa 1

Brian - ...Hwyl iti, Simon...Wela i ti bore yfory...Helo? Linda?...Hei, hei, hei! Paid â rhoi'r ffôn i lawr... Paid â rhoi'r ffôn i lawr...! Jyst gwranda... Na, na, gwranda...Dw i jyst eisiau clywed dy lais di... A dw i eisiau dy weld di eto...Oes...Ac os ydy Tony yn meddwl fod beth wnaeth o i fi wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffordd dw i'n teimlo tuag atat ti...Wel...Geith o fynd i ganu...Achos dw i'n dy garu di yn fwy nag erioed...Na, Linda - dw i ddim am fynd off y ffôn...Na, wnae...Does dim ots gen i os ydy Tony yna neu beidio...Dwi'n malio dim am dy bartnar di...Na, hefo ti dwi'n siarad - ddim fo...Pryd allwn ni gyfarfod? Beth am wythnos yma? Wyt ti'n gallu?...Linda? Linda?...Tony, Tony - gei di weld beth ydy beth. O, cei, gei di weld beth ydy beth yn iawn...

Golygfa 2

Rhodri - Mam! Edrycha arna i...
Agnes - Gofalus nawr, Rhodri...
Rhodri - Alla i sefyll ar fy mhen yn y dwr...
Agnes - Cofio fod Beca gyda ti...Edrych ar ei hôl hi nawr...A paid â bod yn rhy 'rough'...O'r gorau?
Rhodri - Dere aton ni, Mam...
Agnes - Peidwch! Peidwch nawr!
Rhodri - Sblashia ni nôl, Mam! Sblashia ni!
Agnes - Peidwch! Chi'ch dau! Peidwch nawr! Stop! Mae dwr yn mynd i fy llygaid i!
Jenny - ...Hei! Beth ydych chi'n wneud i'ch Mam, blant?
Agnes - Fy sblashio fi maen nhw, Jenny...
Jenny - Dw i am sblashio chi yn ôl! Sbot!
Agnes - Ti'n meddwl? Wyt ti nofio yma'n aml ?
Jenny - Ydw. Dw i'n dod yma bob nos Fawrth ers dechrau'r flwyddyn.
Agnes - Mae nofio yn ffordd grêt o gadw'n heini.
Jenny - Roeddwn i'n teimlo bod yn rhaid i fi wneud rhywbath ar ôl y Nadolig...
Agnes - A mae nofio yn ffordd wych o ymlacio ond ydy e?
Jenny - Ydy. Gwych iawn...
Agnes - Sawl "length" wyt ti'n wneud?
Jenny - Rhyw dri deg. Dw i ddim yn un i ladd fy hun.
Agnes - Glywest ti bytu beth ddigwyddodd ddoe?
Jenny - Yn y llys?
Agnes - Ie.
Jenny - Do. Ddweddodd rhywun fod Brian wedi pledio'n ddieuog i'r cyhuddiad...
Agnes - Do. Wnaeth e. Dieuog. Ond sa i'n hyderus o gwbl...
Jenny - Pam?
Agnes - Fydd Brian yn gorfod dadlau ei achos o flaen rheithgor yn Llys y Goron...Sy wastad yn gambl...

Jenny - A beth yn union ydy'r cyhuddiad?

Agnes - "Handling stolen vehicles." ...

Jenny - A beth ydy'r cyhuddiad sy'n erbyn Jac Whelan?

Agnes - Tri...Cynllwynio i ddwyn ceir, 'tax evasion' a rhywbeth i wneud â 'fraud' yn erbyn y VAT...

Jenny - Dyn drwg.

Agnes - Ofnadwy. Crwc. A dim byd llai...

Jenny - Sut wnaeth o bledio?

Agnes - Dieuog i bob cyhuddiad.

Jenny - Ydy Jac Whelan wedi cael ei gyhuddo o 'handling stolen vehicles' hefyd?

Agnes - Na. Dim ond Brian. Ond Jac Whelan werthodd nhw i Brian. A doedd Brian yn gwybod dim, medde fe. Dyna pam mae e'n y 'mess' yma nawr...

Ysbyty Brynaber: Episode 53

Agnes and Brian are discussing what the outcome of the court case might be. Once again Brian pleads his innocence and tells his wife that his solicitor has assured him that the worst case scenario for him would be a fine.

Dic makes a last ditch effort to get Wendy to change her mind - she will have none of it.

Geirfa

gormod	too much
holi	to ask
adnabod	to know
gynnau	earlier on
colli pwysau	to lose weight
cadw draw	to keep away
dioddef	to suffer
cefnogol	supportive
cyflogi	to employ

Golygfa 1

Brian - Ydych chi nôl o'r pwll nofio?

Agnes - Ydyn...Rhodri...Beca...Dewch â'r tywelion gwlyb i fi, plis...

Brian - Sut aeth hi?

Rhodri - Pam na fyddet ti wedi dod gyda ni i'r pwll nofio Dad?

Brian - Gormod o waith, Rhodri...Edrycha'r bwrdd yma...Bocsus o waith...

Rhodri - Pa waith?

Brian - V.A.T. y garej...

Rhodri - Beth yw V.A.T.?...

Agnes - Treth ar werth.

Rhodri - Beth yw treth ar werth?

Brian - Arian dw i'n gorfod roi i'r llywodreth bob tri mis...

Rhodri - Pam?

Agnes - Dere yma 'pam' - nid dyma'r amser i ddechrau holi cwestiynau - wy moyn chi'ch dau yn eich pyjamas nawr...Mae ysgol fory...

Brian - Weloch chi rywun oeddech chi'n nabod?

Agnes - Jenny.

Brian - Jenny Saunders?

Agnes - Mae hi wedi bod yn mynd i nofio ers dechrau'r flwyddyn, meddai hi. Trio colli pwysau...

Ddim fod eisiau iddi hi. Mae hi'n edrych yn ffantastig fel mae hi...

Brian - Ddim mor ffantastig â ti...

Agnes - Cau dy ben!

Brian - Dw i'n ei feddwl o.

Agnes - Brian? Roeddwn i a Jenny yn siarad yn y pwll nofio gynnau...ac alla i ofyn rhywbeth iti...

Brian - Gofyn beth?

Agnes - Bytu'r achos llys...

Brian - Beth?

Agnes - Pryd fydd e, ti'n meddwl?

Brian - Does dim dal...Mi all fod mewn mis, dau fis, neu dri mis...

Agnes - Sut rydyn ni'n mynd i allu byw a rhywbeth fel hyn yn hongian uwch ein pennau ni?

Brian - Byw mewn gobaith...

Agnes - Gobaith?

Brian - Ia. Achos fy mod i'n ddieuog.

Agnes - Scam Jac Whelan yw hyn i gyd ynte?

Brian - Ia.

Agnes - O'r dechrau i'r diwedd?

Brian - O'r dechrau i'r diwedd.

Agnes - Ond beth bytu'r garej? Beth bytu'r busnes?

Brian - Beth amdano fo?

Agnes - Ti'n bownd o ddiodde. Dw i'n siwr bydd pobl yn dechre cadw draw...

Brian - Na...Mae pobl wedi bod yn gefnogol iawn...

Agnes - Ond am ba hyd?

Brian - Mae'n rhaid imi gredu ynddo fi fy hun, Agnes...Achos dw i'n gwbod fy mod i'n ddieuog...Dw i heb wneud dim byd o'i le...A dw i'n cyflogi tri o fois...Mae gen rheini deuluoedd...A dw i'n wr i ti, yn dad i Rhodri a Beca...Mae gen i forgais i'w dalu, biliau bob mis, costau...Mae'n rhaid imi ddal ati i weithio - ac i obeithio y bydd bob dim yn iawn...

Agnes - Trueni i ti gwrdd â Jac Whelan erioed, Brei.

Brian - Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod o'n grwc oeddwn i?

Agnes - Oeddet ti wedi amau erioed?

Brian - Na...

Agnes - Siwr nawr?

Brian - Ydw - wrth gwrs!

Agnes - Dere i fi roi cwtsh iti...Ers pan oedden ni'n briod gyntaf, rydyn ni wastad wedi bod yn hollol onest gyda'n gilydd ond do...?

Brian - Hollol onest...

Agnes - Ac os oes rhywbeth yn dy fecso di...fyddet ti'n dweud wrtho i oni fyddet ti?

Brian - Dw i'n dweud bob dim wrthot ti, Agnes...

Agnes - Ond beth sy'n mynd i ddigwydd? Gei di garchar?

Brian - Carchar? Na...Ar y mwyaf...Dirwy. Dyna beth ddwedodd Cathy Davies echdoe...

Agnes - Gobeitho ei bod hi'n iawn...Dyna'r cyfan ddweda i...

Golygfa 2

Dic - Seriously concerned? Am beth?

Wendy - Kevin Harries. That young welder yn gwely chwech...

Dic - Yr un sy'n diabetic?...

Wendy - Ie...A fi yw ei primary nurse e...Ond dw i'n cael 'hassles' i'w gael e i dderbyn ei injections... It's like dragging a horse to water...He won't let me get within ten inches of him...

Dic - Beth yn gwmws yw ei broblem e?

Wendy - Sa i'n gwybod...Maybe he feels I'm too young, too close to his own age or something...I don't know...Wnaiff e jyst ddim siarad â fi...

Dic - Don't I know the feeling. Dw i'n gweld dy eisiau ti, Wend...Gweld dy eisiau di'n ofnadwy...Wir nawr...Dw i'n teimlo fy mod i ar goll...

Wendy - Listen: I really haven't got time for this right now...we're just two professionals trying to do a professional job to the best of our ability...Don't let other things get in the way...Dw i wir yn becsu bytu Kevin...Beth os byddai rhywbeth yn digwydd iddo fe? Pen pwyl fyddai ar y bloc wedyn?

Dic - Ddo i draw i'w weld e gyda ti nawr - os nei di addo cwrdd â fi amser cino...

Wendy - Blackmail won't work...

Dic - Dw i'n gofyn yn garedig 'te...Plis...

Wendy - Na! No way! It's over! It's finished!

Dic - Wendy ...

Wendy - Let go of my wrist, Dic!

Dic - Jest gwranda ...

Wendy - Gollwng fi nawr! Nawr! Ti'n clywed?

Jenny - Bob dim yn iawn?

Wendy - Na! Smo bob dim yn iawn! Mae bob dim yn 'bloody awful'!

Dic - Wendy ...

Wendy - Jyst cadw mas o'n ffordd i! O.K?

Ysbyty Brynaber: Episode 54

Dic tells Jenny Saunders about his split up with Wendy.

Agnes asks to see Wendy Keeting - a huge row erupts and ends up with Agnes slapping Wendy across the face and Wendy reciprocating just as Jenny Saunders enters the room.

Geirfa

gweld eisiau rhywun	to miss someone
gollwng	to let go
hawdd	easy
poenus	painful
teimladau	feelings
trefnu	to organise
deuddydd	two days
tyfu	to grow
gwahanu	to separate
gwrthod	to refuse
rheswm	reason
prin	scarce
anobeithiol	hopeless
haeddu	to deserve

Golygfa 1

Wendy - Jyst cadw mas o fy ffordd i, Dic!

Jenny - Dydy o ddim o musnes i...ond fasech chi'n licio sgwrs...?

Dic - Diolch. Ond dw i ychydig bach yn fishi...

Jenny - Pam na awn ni am baned? Dw i wedi clywed eich bod chi a Wendy wedi gorffen. A dydy pethau ddim yn hawdd, mae'n amlwg?

Dic - O'n safbwynt i smo pethau'n hawdd o gwbl. A dweud y gwir, dw i'n ffeindo'r 'split' yn uffernol o boenus. Mae gyda fi sut gymaint o deimladau ati o hyd...

Jenny - Dydy gwahanu byth yn hawdd ydy o?

Dic - Na...Dw i jest yn ffael derbyn fod popeth drosodd...Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i'n ei charu hi sut gymaint.

Jenny - Ac mae hi'n bendant am orffen?

Dic - Erbyn hyn, ydy...

Jenny - Pam erbyn hyn?

Dic - I ddechrau...Wel...Dim ond rhyw fath o 'break' oedd e...Rhywbeth dros dro...Rhyw fath o 'trial separation'...

Jenny - A roeddech chi wastad yn meddwl fod gobaith i chi'ch dau ddod yn ôl at eich gilydd?

Dic - Oeddwn...Aeth Wendy a finnau am wyliau...I'r Alps...Fi drefnodd y cyfan...Mynd mas i sgïo...

Oedd hi wedi bod reit isel ar ôl colli ei thad tros y Nadolig...

Jenny - A chi yn meddwl y basai mynd i ffwrdd yn codi ei chalon hi...?

Dic - Dyna'r bwriad.

Jenny - Beth ddigwyddodd 'te?

Dic - Dyna'r peth...Aeth pethau o chwith...

Jenny - Sut?

Dic - Pob math o fân broblemau... 'Delays' yn y maes awyr...Oedden ni oriau yn hwyr yn cyrraedd y gwesty a wedyn aeth ces Wendy ar goll...Gyrhaeddodd e ni ddeuddydd yn ddiweddarach...Ond roedd gwerth £500 o euros wedi diflannu...

Jenny - Beth?

Dic - Roedd hi wedi cadw'r arian yn y ces...

Jenny - Wel, am beth hollol 'stupid' i wneud.

Dic - Dyna beth feddyliais i...A rhywsut fe sbwylodd hynny y gwyliau i gyd...Gwnaeth rhyw fath o - sa i'n gwbod - rhyw fath o...wel, rhyw fath o wal dyfu rhyngon ni...A phan ddaethon ni yn ôl adref, penderfynodd Wendy ei bod hi moyn i ni wahanu...

Jenny - 'Patch' gwael. Dyna beth ydy hyn, dw i'n siwr.

Dic - Na. Licien i feddwl hynny. Ond sa i'n credu taw dyna beth ydy e, rhywsut...

Jenny - Mae pawb yn cael cyfnodau anodd... A dweud y gwir, gafodd Arwyn a fi rhyw bwl digon drwg cyn y Nadolig...

Dic - Ond wnaethoch chi ddim gwahanu...

Jenny - Nesa peth. Ges i lond bol. Ac mi es i i ffwrdd i westy yn Sir Benfro ar fy mhen fy hun.

Eisiau amser i feddwl. Eisiau amser i drio clirio fy mhen...

Agnes - Dr Allen? Mae eisiau chi ar y ward... Kevin Harries...

Jenny - Pam? Beth sy wedi digwydd?

Agnes - Mae e'n llithro mewn i coma... A Dr Allen? Dwedwch wrth Nyrs Keating fy mod i eisiau ei gweld hi nawr...

Dic - ...Owcidowc.

Jenny - Dw i'n gwybod fod Kevin wedi gwrthod cymryd injections...

Agnes - A mae rheswm pam...

Jenny - Pam?

Agnes - Achos bod ei frawd e'n 'drug addict'. A roedd Kevin wedi addo i'w rieni na fyddai e byth yn troi'n 'junkie'...

Jenny - Ond dydy hyn ddim un peth...

Agnes - I Kevin, mae e. Yn ei feddwl e, mae e'n gwmws yr un peth. A dyna pam roedd eisiau ychydig bach o seicoleg wrth ei drin e. Rhywbeth sy'n brin iawn ym mhen Nyrs Keating..

Wendy - Oeddech chi eisiau fy ngweld i, Sister?

Agnes - Yn fy swyddfa i nawr, nyrs. Eisteddwch...

Wendy - It's about Kevin Harries isn't it?

Agnes - Pam na fydddech chi wedi dweud bod problem gyda fe bytu cymryd ei injections?

Wendy - Wnes i. I told Dr Saunders. A Dr Allen.

Agnes - A beth yw'r broblem?

Wendy - Search me, I don't know...

Agnes - Ydych chi'n gwybod bytu ei frawd e?

Wendy - Na. Pam? What's his brother got to do with him not taking his insulin injections?

Agnes - Popeth. Ag pe bydddech chi'n becsio llai bytu'ch problemau personol ac yn becsio mwy bytu'r cleifion efallai bydddech chi'n gwneud gwell nyrs.

Wendy - Wy'n trio fy ngorau. My very very best.

Agnes - Ers i chi ddod i'r ysbyty yma, mae'ch agwedd chi wedi bod yn anobeithiol.

Wendy - Ano-what?

Agnes - Anobeithiol. Hopeless.

Wendy - I'm not hopeless.

Agnes - Yes. You are.

Wendy - You just pick on me all the time!

Agnes - Wnewch chi eistedd?

Wendy - Everything I do! You're always on my back!

Agnes - Eisteddwch i lawr!

Wendy - You've hated me from the word go! Aw! You bitsh!

Agnes - Dyna beth rydych chi'n haeddu!

Wendy - And you! You cow!

Jenny - Agnes ...

Agnes - Jenny? Welest ti beth wnaeth hon i fi nawr?

Synopsis

Agnes is very worried about the impending Crown Court case against Brian for handling stolen property. Brian reassures her that he is innocent and that the worst that he can expect is a fine.

Wendy has told Dic once and for all that she does not want to continue their relationship.

She was called in to see Sister Agnes Rees - a row followed and Wendy was slapped across the face by Agnes. Wendy retaliated the very second that Jenny Saunders walked into the room.

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'to keep fit'?
 - a) cadw'n brysur
 - b) cadw'n dawel
 - c) **cadw'n heini**
2. Translate 'said Beca' into Welsh
 - a) canodd Beca
 - b) **meddai Beca**
 - c) adroddodd Beca
3. What is the Welsh for 'to miss someone'?
 - a) gweld rhywun
 - b) holi rhywun
 - c) **gweld eisiau rhywun**
4. What's the Welsh word for 'accusation'?
 - a) **cyhuddiad**
 - b) cyhuddo
 - c) cyhuddais
5. What's the Welsh for 'we would like'?
 - a) liciais i
 - b) **licien ni**
 - c) liciwn ni
6. How would you translate 'that's what you deserve' into Welsh?
 - a) Dyna beth rydych chi'n holi
 - b) Dyna beth rydych chi'n hawlio
 - c) **Dyna beth rydych chi'n haeddu**